



# Y 1000 Diwrnod Cyntaf Datblygu'r System

Mae angen eich **sylwadau gwerthfawr** ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynglŷn â'r cam datblygu allweddol hwn, i helpu i gynllunio gwasanaethau yn well a sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

**Pryd:** Dydd Llun 25 Mehefin 2018

**Amser:** 10:00 – 15:30

**Lleoliad:** Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen CF37 5LN

Mae'r 1000 Diwrnod Cyntaf o fywyd, o'r cyfnod cyn cenhedlu i pan fydd y plentyn yn ddwy flwydd oed, yn dylanwadu'n fawr ar ganlyniadau plant, rhieni a theuluoedd trwy gydol bywyd ac o genhedlaeth i genhedlaeth.

Mae'r 1000 Diwrnod Cyntaf yn un o flaenoriaethau cyntaf [Cynllun Llesiant](#) Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf.

Bydd y digwyddiad hwn yn dod ag amrywiaeth eang o randdeiliaid at ei gilydd a fydd yn datblygu cyd-ddealltwriaeth o'r materion sy'n gysylltiedig â'r cyfnod hwn o fywyd, gan gynnwys atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae'r digwyddiad yn gyfle i archwilio cwestiynau fel:

- A ydym ni'n gwneud digon o'r pethau iawn ar yr adeg iawn i gael y canlyniadau gorau?
- A ydym ni'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i helpu rhieni i gyflawni'r hyn sydd orau ar gyfer eu plant?
- A allwn ni weithio'n well ar draws ffiniau gwasanaethau ac wrth rannu gwybodaeth ar y cyfle cynharaf posibl, os oes gennym bryderon?
- A ydym ni'n nodi ac yn ymateb yn ddigon cynnar i risgiau cyn iddynt fod yn broblemau sydd wedi sefydlu?

Yr **Athro Marcus Longley**, Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, **Lynda Williams**, Cyfarwyddwr Nyrsio ac **Ann Batley**, Arweinydd Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Cwm Taf fydd yn arwain y digwyddiad.

I gael rhagor o wybodaeth neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r digwyddiad hwn cysylltwch â Daniel Clayton, Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol Cwm Taf:

Rhif ffôn: 01685 351 440

E-bost: [daniel.clayton@wales.nhs.uk](mailto:daniel.clayton@wales.nhs.uk)

**Cinio a lluniaeth ar gael.**

I gofrestru ar gyfer lle yn y digwyddiad hwn cliciwch [yma](#).